Annwyl Rieni/Gofalwyr,

# HWRE... DYDD LLUN 16 TACHWEDD YW DIWRNOD SANAU OD!



## BETH YW DIWRNOD SANAU OD?

Mae Diwrnod Sanau Od yn rhan o Wythnos Gwrth-fwlio! I ddathlu'r ffaith fod pawb ohonom ni'n unigryw, rydym ni'n gofyn i blant wisgo sanau od i fynd i'r ysgol ar ddydd Llun 16 Tachwedd. Y llynedd, fe wnaeth dros 13,000 o ysgolion gyfranogi yn Niwrnod Sanau Od. Mae Andy Day (CBeebies/CBBC) a'i fand, Andy and the Odd Socks, yn cynorthwyo'r Gynghrair Gwrth-fwlio i ddod â Diwrnod Sanau Od yn fyw unwaith eto eleni. Gwrandewch ar y gân wych maent wedi'i recordio yn arbennig ar gyfer wythnos gwrth-fwlio, **The Kids Are United!**

## PAM MAE DIWRNOD SANAU OD YN BWYSIG?

Mae'r diwrnod yn cyfleu neges bwysig i ddysgwyr, sef, dylent allu bod yn hwy eu hunain heb brofi unrhyw bwlio, ac mae'n ein helpu ni i ddathlu Wythnos Gwrth-fwlio mewn modd difyr a chadarnhaol.

# BETH HOFFEM NI I CHI EI WNEUD?

Mae'n hawdd ☺
Dyma beth i'w wneud:

1. Cofiwch sicrhau fod eich plentyn yn gwisgo sanau od i fynd i'r ysgol
2. **Cyfrannwch £1** i helpu'r Gynghrair Gwrth-fwlio i barhau â'i gwaith pwysig
3. Os dymunwch chi, gallwch chi rannu llun ar-lein gan ddefnyddio **#diwrnodsanauod #wythnosgwrthfwlio** a thagio **@andyoddsocks** ac **@abaonline**

16 Tachwedd




## DIOLCH, DIOLCH, DIOLCH!

Bydd pob ceiniog yn cael ei chyfrannu at y Gynghrair Gwrth-fwlio i'w helpu i barhau â'i holl waith. Edrychwn ymlaen at weld yr holl Sanau Od ar ddydd Llun 16 Tachwedd ...

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, gofynnwch i:

..................................................................

Anti-Bullying Alliance
TREFNYDD

UNEDIG YN ERBYN BWLIO
#WYTHNOSGWRTHFWLIO

Andy and the Odd Socks
PARTNER

© Biwro Cenedlaethol y Plant - Elusen Gofrestredig Rhif 258825. Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr Rhif 952717. Swyddfa gofrestredig: 23 Mentmore Terrace, Llundain E8 3PN. Cwmni Cyfyngedig trwy Warant.